**Y Pwyllgor Menter a Dysgu**
**EL(3)-06-11 (p4) : 17 Mawrth 2011**

## Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Diben

1 Mae'r papur hwn yn cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Dysgu (y Pwyllgor) ar gyfer ei ymchwiliad i'r polisïau a'r fframwaith ar gyfer *Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*[1]. Mae'n nodi'r cynnydd pellach sydd wedi cael ei wneud i wella'r trefniadau ar gyfer cyflenwi dysgu ôl-16 ers i'r adroddiad diwethaf gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor, ym mis Ebrill 2010. Mae'r papur hefyd yn nodi datblygiadau polisi eraill sydd wedi cael eu gweithredu neu sy'n cael eu hystyried mewn perthynas â sicrhau gwelliannau pellach i bob dysgwr yng Nghymru, waeth beth fo ei oed a lle mae'n byw.

## Cefndir

2. Datblygwyd y Polisi *Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru* er mwyn ymateb i *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*[2] a rhoddodd fframwaith cenedlaethol i randdeiliaid i drawsnewid y rhwydwaith ôl-16 o ddarparwyr dysgu. Fel hyn y canlyniadau a ddisgwylid oedd i bobl ifanc ac oedolion allu cael mwy o raglenni dysgu gwell ac i gael y sgiliau y mae eu hangen i wella cyfleoedd bywyd a chyflogadwyedd.

3. Nid oedd y Polisi'n cyfarwyddo darparwyr i fabwysiadu model penodol o newid ond roedd yn annog datblygu atebion lleol i anghenion lleol, er mwyn i'r gwaith o gynllunio a gweithredu newid fod yn gyson â gweithredu datblygiadau polisi eraill oedd yn berthnasol[3].

4. Yn y ddogfen 'Cymru'n Un' ymrwymwyd i ddatblygu system addysg a hyfforddiant sy'n cynnig amrywiaeth fawr o gyfleoedd dysgu, sy'n ymateb i anghenion pob dysgwr a chyflogwr, sy'n gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau er lles dysgwyr ac sy'n mynd i'r afael â thlodi ac anfantais. O ganlyniad penderfynwyd ehangu cylch gwaith Trawsnewid ôl-16 i gynnwys amrediad llawn y ddarpariaeth, o'r plant ieuengaf i oedolion, gan ymdrin ag ystadau, cyflenwi, cwricwlwm ac addysgeg, y cyfeirir ato fel y Rhaglen Drawsnewid i Bob Oed.

5. Cyfeiriodd y Pwyllgor hefyd at rai pryderon ynglŷn â gweithredu polisïau trawsnewidiol ehangach, mewn llythyr a anfonwyd at Leighton Andrews, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (PADGO), ar 17eg Mehefin 2010. Rhoddodd y Gweinidog dros PADGO ymatebion i'r pryderon hyn i'r Pwyllgor yn ei ateb dyddiedig Gorffennaf 10fed 2010. Mae'r dystiolaeth a roddir yn y papur hwn yn rhoi diweddariad pellach ar y datblygiadau sy'n berthnasol i'r pryderon hyn.

---

[1] Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, lansiwyd ym mis Medi 2008 – ar gael ar: http://wales.gov.uk/dcells/publications/publications/guidanceandinformation/deliveringskillsworkforwales/transformingprovisionwales?lang=en

[2] Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth (2008) – ar gael ar: http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/081217stwfwstrategyandactioncy.pdf

[3] Llwybrau Dysgu 14-19; ac yn ddiweddarach Er Mwyn Ein Dyfodol: Strategaeth a Chynllun Addysg Uwch ar gyfer Cymru yn yr Unfed Ganrif ar Hugain - ar gael ar: http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/091209forourfuturecy.pdf

**Newid Trawsnewidiol Ôl-16**

6. Mae grwpiau o ddarparwyr dysgu yn gweithio fel Partneriaethau Dysgu wedi cyflwyno cynigion ar gyfer newid i'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS). Chwiliwyd yn y rhain am dystiolaeth o sicrhau gwelliannau cynaliadwy o ran effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a hyblygrwydd. Mae saith deg pump y cant o'r Cynlluniau Trawsnewid ôl-16 yn cael eu gweithredu a cheir crynodeb o'r cynnydd sy'n cael ei wneud ym mhob un o'r Partneriaethau Dysgu hyn yn **Atodiad 1**.

7. Nododd llythyr y Pwyllgor y cynnydd amrywiol sy'n cael ei wneud o ran gweithredu a gofynnodd i'r Gweinidog dros PADGO ystyried sut y gallai ddylanwadu ymhellach ar y Partneriaethau Dysgu hynny oedd yn gwneud cynnydd arafach; hybu ymgysylltu â chyflogwyr; a datblygu llwybrau Dysgu Seiliedig ar Waith ymhellach.

8. Yn ystod y deuddeng mis diwethaf cymerwyd camau i gyflymu trawsnewid pob system dysgu.

9. Sefydlwyd nifer o Grwpiau Adolygu, gan gynnwys y canlynol, â chylch gwaith i ystyried:

- Gwahanol gyfleoedd i sicrhau newid o ran costau o swyddogaethau cymorth ar gyfer dysgu i gyflenwi gwasanaethau rheng flaen. Nid dim ond er mwyn dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd oedd hyn, ond er mwyn cyflenwi'r gwasanaeth addysg gorau posibl trwy gwtogi ar rai o'r beichiau biwrocrataidd diangen yn y system (**Adolygiad Adnoddau Rheng Flaen**). Mae'r cynllun cyflenwi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Ochr yn ochr â hyn, mae **grŵp gorchwyl a gorffen** annibynnol wedi cael ei gomisiynu i ystyried ai'r ffordd orau i gyflenwi gwasanaethau addysg yw yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol neu drwy ryw strwythur arall. Bydd y grŵp yn rhoi adroddiad ar ei ganfyddiadau yng nghanol mis Mawrth;
- a yw'r ffurfiau llywodraethu cenedlaethol a sefydliadol presennol yn cydweddu ag anghenion, disgwyliadau a gofynion Addysg Uwch yng Nghymru yn y dyfodol, a nodi unrhyw newidiadau angenrheidiol (**Adolygiad o Addysg Uwch**). Mae'r adroddiad i fod i gael ei gyhoeddi ar ddechrau mis Mawrth 2011;
- a yw'r trefniadau presennol ar gyfer llywodraethu Sefydliadau Addysg Uwch yn berthnasol i'r heriau a'r disgwyliadau y mae'r sector Addysg Bellach a'r economi ehangach yn eu hwynebu er mwyn diwallu anghenion cyflogwyr, unigolion a chymunedau. Mae hwn i fod i gyflwyno adroddiad ym mis Mawrth 2011(**Adolygiad o Lywodraethu Addysg Bellach**); a'r
- modd y gellir sicrhau system well, unedig ac effeithlon o drosglwyddo i ddarpariaeth addysg mewn ysgol neu addysg bellach i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n hŷn nag 16 oed. Mae cyfeiriad yr argymhellion, y cafodd pob un ohonynt eu cymeradwyo ym mis Tachwedd 2010, tuag at fwy o gysondeb o ran dulliau ar draws Cymru; cydweithredu rhanbarthol; gwerth am arian; a chynllunio'n well ar gyfer y ddarpariaeth.

10. Mae gwaith wedi cael ei gomisiynu i siapio'r rhwydwaith o ddarparwyr dysgu:

- Mae ymarfer tendro wedi cael ei gwblhau ar gyfer darparu Dysgu Seiliedig ar Waith ar gyfer y cyfnod Awst 2011 i 2014. Mae'r canlyniad yn dangos symudiad i ffwrdd o gontractwyr bach i grwpiau consortiwm mawr. Bydd hyn yn gwella'r ffyrdd y mae'r sector yn ateb y galw am ddysgu ar draws holl ranbarthau Cymru;
- Mae Mesur Addysg yn cael ei sefydlu i sicrhau mwy o gydweithredu rhwng awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a Sefydliadau Addysg Bellach. Bydd hwn yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol sefydlu ffederasiynau ysgolion. Bydd hefyd yn cynorthwyo â gwella ansawdd llywodraethu ysgolion, ac yn atal sefydlu ysgolion sefydledig newydd;
- Trwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), ei gwneud yn ofynnol i Sefydliadau Addysg Uwch gydweithio i ddatblygu cynlluniau cydweithredol rhanbarthol i wella mynediad i Addysg Uwch. Yn ddiweddar mae CCAUC wedi cyhoeddi datganiad am siâp y sector yn y dyfodol, gan nodi gofyniad i symud o'r un ar ddeg Sefydliad Addysg Uwch sy'n gweithredu fel darparwyr dysgu unigol ar hyn o bryd, i ddim mwy na chwech, er mwyn cryfhau'r sector trwy well effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

11. Mae rhagor o fesurau wedi cael eu creu er mwyn sicrhau gweithio cydweithredol:

- Yn dilyn argymhelliad gan yr Adolygiad Adnoddau Rheng Flaen, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol weithio mewn consortia rhanbarthol, i rannu gwasanaethau a sicrhau bod arferion gorau'n cael eu nodi a'u dosbarthu trwy Gymunedau Dysgu Proffesiynol. Os nad yw awdurdodau lleol yn gweithio fel hyn byddant yn cael eu cosbi'n ariannol;
- Mae holl gronfeydd cyfalaf APADGOS wedi cael eu cyfuno i gynorthwyo â gweithredu newid trawsnewidiol, trwy Fwrdd y Rhaglen Trawsnewid sydd newydd gael ei sefydlu. Hefyd mae'r gallu i gael arian o'r rhaglen buddsoddi cyfalaf ar gyfer yr 21ain Ganrif yn dibynnu'n rhannol ar awdurdodau lleol yn gweithredu cynllun Trawsnewid ôl-16 cymeradwy.
- Mae cymorth mwy cyfarwyddol wedi cael ei roi i Ddarparwyr Dysgu i'w cynorthwyo wrth ddadansoddi'n wrthrychol y dystiolaeth ar gyfer newid ac i herio hunan-fudd sefydliadau unigol. Dim ond cynlluniau newid sydd yn amlwg yn darparu'r ateb gorau i ddysgwyr, ac nid i sefydliadau, sy'n cael cymeradwyaeth i symud at y cam gweithredu.

**Trawsnewid yn digwydd**

12. Unwaith eto mae'r sector Addysg Bellach wedi ymateb yn gyflym i'r agenda newid.

    *Sefydlwyd Coleg Gŵyr Abertawe wrth i Sefydliadau Addysg Bellach Gorseinon ac Abertawe uno yn haf 2010. Disgwylir i Goleg y Barri a Choleg Glan Hafren uno yn ddiweddarach eleni gyda Choleg newydd Caerdydd a'r Fro yn cael ei ymgorffori ym mis Ebrill 2011. Ar hyn o bryd mae ymchwiliad i gynghrair ffurfiol arall rhwng Coleg Caerdydd a'r Fro a Choleg Catholig Dewi Sant yn mynd rhagddo er mwyn sefydlu darpariaeth addysg bellach wedi'i chysoni'n llwyr ar draws ardal ehangach y brifddinas. Mae'r buddion a gaiff eu creu yn cynnwys mwy o effeithlonrwydd wrth weithredu; mwy o gydnerthedd gan y sefydliad; cyfleoedd gwell i ddysgwyr; llwybr di-dor i gyflogaeth neu Addysg Uwch; a chysylltiadau cryfach gyda byd busnes a masnach.*

13. Fwyfwy mae awdurdodau lleol yn amgyffred yr angen i drefnu ysgolion yn fwy effeithlon. Er nad yw'r cynnydd wrth ddileu lleoedd gwag wedi cyd-fynd, at ei gilydd, gyda'r nifer lai o dderbyniadau, mae APADGOS yn cael nifer fwy o gynigion ar gyfer ad-drefnu o'i chymharu â'r nifer yn 2009.

*Mae Sir Gâr yn cynnig ad-drefnu ysgolion uwchradd yn llwyr yng nghlwstwr Dinefwr yn y sir er mwyn darparu gwelliannau i'r ffordd y cyflenwir dysgu a chreu unedau dysgu mwy hyfyw, yn enwedig yn y cyfnod ôl-16, ac ar yr un pryd lleihau nifer y lleoedd gwag. Mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried cau dwy ysgol uwchradd yn Nyffryn Tywi a sefydlu un ysgol 11-19 ddwyieithog newydd mewn lle sy'n fwyaf addas i anghenion dalgylchoedd presennol Pantycelyn a Thregib.*

14. Mae rhai Awdurdodau Lleol yn defnyddio dulliau arloesol i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y ffordd y cyflenwir dysgu, yn enwedig lle mae cymunedau gwledig yn cael eu gwasanaethu gan ddarparwyr sy'n ynysig yn ddaearyddol.

*Mae Awdurdod Lleol Ceredigion yn ystyried sefydlu ysgolion 3 -19 yn Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron. Mae cyrff llywodraethu ysgol uwchradd Llanbedr Pont Steffan ac Ysgol Gynradd Ffynnon Bedr yn cydweithio trwy brosiect peilot i ystyried manteision hirdymor ysgol 3-19 o ran addysg ac i'r gymuned. Yn ystod cyfnod y prosiect peilot mae'r ddwy ysgol yn gweithio mewn partneriaeth o dan arweiniad Pennaeth yr ysgol uwchradd. Dechreuodd y prosiect peilot ym mis Medi 2010 a bydd yn rhedeg am flwyddyn o leiaf gyda'r hyblygrwydd i'w ymestyn os oes angen.*

15. Mae awdurdodau lleol eraill yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r ystod lawn o ddarparwyr dysgu, gan gyfuno arbenigedd ac adnoddau er mwyn gwella lefelau sgiliau pob aelod o'r gymuned a helpu i ysgogi adfywio rhanbarth.

*Mae Rhaglen Addysg Blaenau'r Cymoedd yn bartneriaeth unigryw rhwng awdurdodau lleol Merthyr Tudful a Blaenau Gwent, Prifysgol Morgannwg, Prifysgol Cymru, Casnewydd, Coleg Merthyr Tudful, Coleg Gwent a Llywodraeth y Cynulliad. Ei huchelgais a'i diben yw cyflenwi newid trawsnewidiol a gwelliannau i blant cyn-ysgol a'u teuluoedd, hyd at y rheiny sy'n cael addysg uwch ac sydd mewn cyflogaeth. Mae rhaglenni dysgu newydd yn cael eu datblygu er mwyn denu dysgwyr a sicrhau bod mwy o bobl ifanc ac oedolion yn cael Addysg Uwch. Mae digon o arian cyfalaf wedi cael ei sicrhau i adeiladu dau gampws dysgu pwrpasol yng nghanol trefi Glynebwy a Merthyr Tudful. Mae Prifysgolion Morgannwg a Chasnewydd yn cydweithredu mewn ffordd unigryw o dan faner Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd (UHOVI), gan ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, darparu graddau Sylfaen i ddysgwyr amser llawn a rhan amser, a chynorthwyo â datblygu'r gweithlu.*

16. Mae yna rai enghreifftiau da o weithio mewn partneriaeth ar draws sectorau, gan ddefnyddio technolegau modern a thiwtoriaid peripatetig yn aml, i gyflenwi cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

*Mae Ysgol Uwchradd Bodedern, Ynys Môn, yn datblygu cwrs e-ddysgu Peirianneg lefel 2 cwbl ddwyieithog ar y cyd gyda Choleg Menai, Bangor. Mae adnoddau cwrs dwyieithog yn cael eu gosod ar y platfform Moodle a gall y myfyrwyr eu cyrchu yn yr ysgol ac yn eu cartrefi. Coleg Menai sy'n addysgu elfennau technegol y cwrs a'r ysgol sy'n gyfrifol am weddill y cwrs.*

*Yng Ngheredigion, Ysgol Uwchradd Tregaron yw prif ddarparwr CACHE Lefel 3 i Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan, Ysgol Penweddig, Ysgol Bro Ddyfi (Powys). Rhoddir y gwersi gan ddefnyddio'r cyfleusterau fideo-gynadledda.*

17. Mae gwaith cyflenwi'n datgelu gwelliannau wrth gael darpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith gyda chysylltiadau ag ymgysylltu â chyflogwyr a busnesau. Gan ddefnyddio grant a roddwyd gan APADGOS, recriwtiodd Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru bedwar Swyddog Rhwydwaith rhanbarthol i gydweithio'n agos ag ysgolion a Sefydliadau Addysg Bellach, i sicrhau bod dysgu seiliedig ar waith yn dod yn gymaint o ran o'r arlwy dysgu 14-19 ag yw rhaglenni astudio mwy traddodiadol. Maent hefyd yn cydweithio gyda'r sectorau addysg bellach ac uwch i sicrhau bod cyfleoedd dysgu i oedolion yn gallu darparu sgiliau personol a phroffesiynol priodol yn well i'r rheiny sydd mewn swyddi ac i'r rheiny sy'n chwilio am swyddi.

    *Yn ardal Blaenau'r Cymoedd yn y de ddwyrain mae Swyddog Rhwydwaith Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn cydweithio'n agos â UHOVI i sicrhau bod y ddarpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith yn cynorthwyo ag ymgysylltiad a chyrhaeddiad mewn cyrsiau lefel uwch. Mae aelodau'r Ffederasiwn wedi cytuno i wella cynigion Gradd Sylfaen trwy gyflenwi elfennau seiliedig ar waith y rhaglenni Lefel Uwch newydd. Maent hefyd yn cynorthwyo UHOVI trwy gyflenwi rhaglenni Lefel 4 yn y gweithle. Bydd hyn yn sicrhau bod darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith yn cynnig y nifer a'r amrywiaeth fwyaf posibl o lwybrau i symud ymlaen i Addysg Uwch sydd ar gael i brentisiaid.*

18. Er gwaethaf setliad ariannu heriol mae APADGOS wedi cadw lefelau ariannu 2010-2011 sydd ar gael i gynorthwyo â gweithredu cynigion Trawsnewid. Bydd y £3.943 miliwn hyn yn sicrhau bod awdurdodau lleol, ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch yn parhau i gael eu cynorthwyo i weithredu rhaglenni trawsnewidiol mawr ac y gallant fynd i'r afael yn llwyddiannus â'r materion cyfreithiol a'r materion sy'n ymwneud â'r gweithlu a diwydrwydd dyladwy sy'n gysylltiedig â newid system.

19. Rhoddir mwy o fanylion am ddatblygiadau polisi ôl-16 yn **Atodiad 2.**

## Datblygiadau polisi sy'n cyd-fynd â Thrawsnewid

20. Gwnaeth adroddiad y Pwyllgor ym mis Mehefin 2010 nifer o gyfeiriadau at effaith integreiddio a gweithredu polisi ehangach ar grwpiau cymunedol penodol a sectorau penodol o gyflenwi dysgu. Nodir y cynnydd tuag at welliannau dysgu hefyd yn **Atodiad 2** a cheir yno ddiweddariadau ar:

## Rhaglen Llwybrau Dysgu 14-19

21. Trwy'r Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod o leiaf tri deg o raglenni dysgu ar gael i'r holl ddisgyblion 14-16 oed erbyn 2012. Bydd hyn yn cynnwys o leiaf pum dewis galwedigaethol, sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd gyda phobl ifanc. Cymerodd dau ddeg wyth y cant o'r holl bobl ifanc 14 oed ran mewn rhaglenni galwedigaethol yn 2008 a chododd y ganran i bedwar deg dau y cant yn 2010. Bydd gofynion lleol tebyg o ran y cwricwlwm ar lefel ôl-16 yn dod i rym o fis Medi 2011 ymlaen. Trwy dargedu arian yn benodol at y ddarpariaeth alwedigaethol gyfrwng Cymraeg a dwyieithog, disgwylir i bob ysgol

gyfrwng Cymraeg gynnig y pum cwrs galwedigaethol gofynnol yn yr amserlenni cytunedig.

22. Mae rhaglen genedlaethol hyfforddi Hyfforddwyr Dysgu wedi cael ei diwygio i fod yn gymhwyster seiliedig ar unedau, i gael ei chyflwyno o fis Ebrill 2011 ymlaen. Bydd hyn yn darparu mwy o hyblygrwydd yn nhermau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) am lai o gost. Y nod hirdymor o hyd yw cynnwys hyfforddiant hyfforddwyr dysgu mewn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.

23. Mae Gweithgor Cynaliadwyedd 14-19 wedi cael ei sefydlu yn ddiweddar i ystyried sut y gellir defnyddio cyllid yn y dyfodol yn y ffordd orau i gynorthwyo â rhaglenni Llwybrau Dysgu 14-19. Mae aelodau'r Gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Rhwydweithiau 14-19 a swyddogion APADGOS. Bydd y Gweithgor yn cyflwyno ei argymhellion yn haf 2011.

**Dysgu Seiliedig ar Waith**

24. Bydd y rhaglen sy'n olynydd i Adeiladu Sgiliau Ieuenctid (Hyfforddeiaethau) yn dechrau ym mis Awst 2011, a chaiff canllawiau eu cyhoeddi i annog darparwyr i feithrin cysylltiadau gyda'r prosiectau cymunedol a'r sefydliadau gwirfoddol lleol, ac i sefydlu perthnasoedd da gyda chyflogwyr. Bydd hyn yn cryfhau lleoliadau seiliedig ar waith i bobl ifanc.

25. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi derbyn argymhelliad, trwy Ymchwiliad y Pwyllgor Deisebau i'r ddarpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith i bobl ifanc fregus, i ystyried yr argymhellion hynny sy'n deillio o adolygiad Comisiwn y Deyrnas Unedig dros Gyflogaeth a Sgiliau i mewn i ymgysylltu â chyflogwyr.

26. O wanwyn 2011 ymlaen caiff y 'Sgwrs Go Iawn' ei gyflwyno, er mwyn ymateb i'r Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc. Nod hwn yw cynorthwyo pobl ifanc i gael cyflogaeth trwy ddwyn ynghyd gyflogwyr, pobl ifanc ac ymarferwyr i drafod ffyrdd o wella profiad gwaith a chyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc 14-18 oed.

27. Bydd Rhaglen Adeiladu Sgiliau Oedolion (Camau at Waith) hefyd yn dechrau ym mis Awst 2011. Bydd hon yn canolbwyntio ar dri maes penodol: ymgysylltu â'r rheiny sydd bellaf o'r farchnad swyddi; cael cymwysterau Lefel 1; a "Phont i Gyflogaeth" a fydd yn cynorthwyo ag ymgysylltiad dysgwyr i'r rheiny â chymwysterau Lefel 1 na allant symud ymlaen i gyflogaeth na hyfforddiant Lefel 2.

**Cynghorau Sgiliau Sector**

28. Mae gan Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru nifer o nodau allweddol, gan gynnwys cryfhau llais y cyflogwr ar sgiliau yng Nghymru a helpu Cymru i ddatblygu economi sgiliau uchel gyda chyfleoedd i bawb. Mae Is-grŵp o'r Bwrdd wedi bod wrthi'n adolygu rôl y Cynghorau Sgiliau Sector yng Nghymru. Bydd canfyddiadau'r Is-grŵp yn helpu i ddarparu gwybodaeth i Weinidogion Cymru ar syniadau yn y dyfodol ynglŷn â sut y gellid cryfhau llais y cyflogwr yng Nghymru.

29. Er mwyn sicrhau system sgiliau fwy ymatebol sy'n adlewyrchu galwadau gan gyflogwyr am sgiliau yn y dyfodol, mae APADGOS wedi gweithredu cyfres o brosiectau peilot gan gydweithio gyda Chynghorau Sgiliau Sector. Nod y rhain yw rhoi sylw i feysydd meithrin gallu yn y rhwydwaith darparwyr hyfforddiant yng

Nghymru yn ogystal â chyflenwi ffurfiau newydd o hyfforddiant i gyflogwyr. Mae yna un deg tri phrosiect peilot i gyd, gan gynnwys cyflenwi pum deg o gynlluniau Prentisiaeth Greadigol newydd i Gymru, fydd yn cael eu cyflenwi mewn partneriaeth â phedwar Sefydliad Addysg Bellach ac un darparwr Dysgu Seiliedig ar Waith

**Y Camau Nesaf**

30. Er bod cynnydd mwy organig wedi cael ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf wrth weithredu newid trawsnewidiol, mae nifer o Bartneriaethau Dysgu wedi methu â chyflawni'r newid diwylliant i weithio cydweithredol. Mae eraill yn gweithredu modelau newid a fydd yn darparu gwelliannau ar gyfer dysgu yn y tymor byr, ond sy'n annhebygol o sicrhau'r buddion mwyaf posibl i ddysgwyr yn y tymor canolig i'r tymor hir. Mae yna resymau amrywiol dros weithredu mewn ffordd sy'n llai na'r gorau ond dywedir mai'r gwrthwynebiad cryf i newid o'r sector ysgolion yw'r prif rwystr i gynnydd. Mae'n amlwg fod hyn yn effeithio ar gymeradwyo Cynlluniau Trawsnewid gan lawer o gynghorau sy'n awdurdodau lleol, sydd o dan ddylanwad dymuniad ysgolion i gadw'r sefyllfa bresennol, hyd yn oed pan gyflwynir iddynt dystiolaeth gref dros newid.

31. Felly, er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn canolbwyntio ar welliannau i bob dysgwr mewn ardal ddaearyddol benodol, mae fframwaith polisi mwy cyfarwyddol i gael ei sefydlu, gan weithio i Fwrdd y Rhaglen Trawsnewid i Bob Oed (y Bwrdd). Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Cyffredinol APADGOS a'i dasg yw datblygu a hybu cydweledigaeth ar gyfer newid trawsnewidiol cynaliadwy trwy osod a gwireddu nodau clir yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hirach. Bydd y Bwrdd yn goruchwylio cytundeb ar fframwaith ar gyfer cydgysylltu polisi a darpariaeth ar gyfer yr holl gyfleoedd a rhaglenni dysgu a ariennir gan yr Adran, gan ganolbwyntio ar arbedion effeithlonrwydd, cynaliadwyedd gwell a chanlyniadau gwell i ddysgwyr. Bydd y Bwrdd yn cael ei gynorthwyo gan Is-adran Rhaglen Trawsnewid newydd ei sefydlu er mwyn sicrhau:

- bod yna gysylltiadau strategol cryf rhwng ail-lunio a darparu'n barhaus ddysgu cyn-16, ôl-16 ac Addysg Uwch;
- bod cynlluniau i weithredu newid yn darparu'r strwythur dysgu gorau i ddysgwyr o bob oed, ar draws pob rhanbarth o Gymru;
- bod y fframwaith buddsoddi yn y tymor canolig i'r tymor hir mewn gwelliannau i'r seilwaith yn gwbl gyson â pholisi addysg cenedlaethol, gyda chynllunio lleol a rhanbarthol effeithiol yn sylfaen iddo;
- bod datblygiadau ym meysydd y cwricwlwm ac addysgeg yn cael eu cydgysylltu'n well â newid strwythurol; a
- bod cymorth i brosiectau trawsnewid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, a'r rheolaeth drostynt, yn cael eu cydgysylltu'n dda.

32. Bydd gwaith y Bwrdd yn cael ei siapio a'i gynorthwyo gan argymhellion o'r gwahanol Grwpiau Gorchwyl a Gorffen, a chymerir camau newydd i hybu cydweithredu a sicrhau gwell cyfleoedd dysgu.

33. Er mwyn sicrhau bod newid yn digwydd yn unol â chynlluniau cytunedig, mae APADGOS yn datblygu fframweithiau a systemau i fonitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at wireddu buddion dysgu. Bydd y rhain yn dal rhanddeiliaid yn gyfrifol am gyflenwi gwelliannau dysgu ac yn cynorthwyo â chynllunio a gweithredu rhagor o

newid trawsnewidiol os na fydd y buddion a ddisgwylir i ddysgwyr yn cael eu gwireddu.